



Teitl y gweithgaredd:	Disgrifio Cymeriad
Disgrifiad:	Cyflwyniad i destun, darllen testun gyda sgiliau marcio testun a holi.
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Sgîl Rhaglen Astudio posib:	Llafaredd> Siarad / Gwranddo / Cydweithio a thrafod
Testun T. Llew Jones	<i>Y Gelyn ar y Trên</i>
Offer angenrheidiol:	<ul style="list-style-type: none">• Nofel <i>Y Gelyn ar y Trên</i>• Lluniau o bobl wedi eu torri allan o gylchgronau
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none">• Gallwch atgoffa'r dysgwyr o stori <i>Y Gelyn ar y Trên</i> a bod Guto wedi mynd i swyddfa'r heddlu i roi gwybod iddynt am ddiwyddiad ar y trêen.• Trafodwch gyda'r dysgwyr pa ansoddeiriau gellid ei defnyddio i ddisgrifio pobl - mawr, bach, tal, tenau, pryd tywyll, pryd golau ayyb.• Rhowch lun i bob grŵp gan ofalu nad yw'r grwpiau eraill yn ei weld.• Mae pob grŵp yn creu disgrifiad o ychydig frawddegau o'r cymeriad hwnnw. Anogwch y dysgwyr i lynu at ffeithiau yn hytrach na cheisio bod yn ddychmygus yn y gweithgaredd hwn.• Casglwch yr holl luniau a'u gosod mewn lle amlwg o flaen y dosbarth.• Bydd un dysgwr o bob grŵp yn darllen ei disgrifiad o'r cymeriad. Bydd aelodau eraill y dosbarth yn ceisio dyfalu pa gymeriad y mae'r grŵp yn ei ddisgrifio.
Gweithgareddau gwahaniaethol:	<p>Mewn paru, gall y dysgwyr lunio disgrifiadau syml o ddisgybl arall yn y dosbarth a gweld a all y partner ddyfalu pwy yw'r dysgwr sy'n cael ei ddisgrifio.</p> <p>Gellir ychwanegu her ychwanegol trwy greu elfen o gystadleuaeth gan roi pwyntiau penodol os yw grŵp arall yn dyfalu'r cymeriad cywir o fewn un frawddeg, dwy frawddeg ayyb.</p>